

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

GWRANDAWIAD CADARNHAU – 21 MEHEFIN 2024

**PENODIAD ARFAETHEDIG DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD
GOGLEDD CYMRU GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD
CYMRU**

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 (yr Atodlen) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Penodiad Arfaethedig Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cynhaliodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) wrandawiad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 o'r Atodlen, fel rhan o raglen cyfarfod y Panel a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy, ddydd Gwener, 21 Mehefin 2024.

Ystyriodd y Panel lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn argymhell ailbenodi Mr. Wayne Jones i swydd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

Yn unol â Pharagraff 11 yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd arfaethedig yn bresennol yn y cyfarfod ac atebodd nifer o gwestiynau gan aelodau'r Panel.

Adolygodd y Panel y penodiad arfaethedig a'r meini prawf a ddefnyddiodd y Comisiynydd i benderfynu ar ei enwebiad ar gyfer y swydd. Roedd y Comisiynydd wedi nodi'n glir, pe bai'n cael ei ailethol, y byddai'n ailbenodi Mr Jones fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, felly ni chynhaliwyd proses recriwtio.

Cydnabu'r Panel bod gan Mr Jones ddealltwriaeth ragorol o wasanaeth yr heddlu, llywodraethu ac atebolrwydd gan ei fod wedi cael gyrfa sylweddol mewn plismona gweithredol am dros 30 mlynedd.

Cydnabu'r Panel gyflawniadau Mr Jones yn ystod y 3 blynedd diwethaf, yn enwedig o ran cam-drin domestig a chaethwasiaeth fodern; nododd y Panel hefyd brofiad Mr Jones mewn craffu ariannol.

Dangosodd Mr Jones bod ganddo ddealltwriaeth ragorol o rôl y Dirprwy Gomisiynydd a'r gwahaniaeth rhwng cylch gwaith y Comisiynydd a materion plismona gweithredol. Nodwyd hefyd bod ganddo berthynas waith dda gyda'r Comisiynydd a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Felly, roedd y Panel yn teimlo bod Mr Jones yn bodloni'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu addasrwydd yr ymgeiswyr ar gyfer penodiad gan **ARGYMELL**:

Bod Mr. Wayne Jones yn cael ei ailbenodi fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

21 Mehefin 2024

This document is also available in English